# Pecyn Cymorth Teithiau Grŵp
# Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg

Eich canllaw i ddenu mwy o ymweliadau grŵp ac o ansawdd gwell




www.visitmonmouthshire.com/groupvisits

visitmonmouthshire
ymwelwch â sir fynwy

www.cityofnewport.wales/en/Visit/Group-travel/Group-travel.aspx

City of NEWPORT Dinas CASNEWYDD



*TUDALEN FLAEN – NEUADD Y SIR, TREFYNWY*

*PRIORDY LLANDDEWI NANT HODNI*



# Cyflwyniad

## Mae'r sectorau teithiau grŵp a theithiau coetsys yn cynnig ffynhonnell o incwm sydd yn ddefnyddiol ac yn ddibynadwy i fusnesau twristiaeth.

Mae grwpiau o ymwelwyr yn gwsmeriaid gwerthfawr posib i westai, atyniadau a lleoliadau. Maent yn werthfawr i atyniadau treftadaeth; yn aros am brydau bwyd; sefydliadau manwerthu; darparwyr llety; darparwyr trafnidiaeth; teithiau tywys i dwristiaid; orielau celf a chrefft a theatrau. Er bod yr enillion yn llai na'r hyn a geir gan y farchnad Digwyddiadau Busnes, mae'n helpu delio gyda'r problemau sydd yn effeithio ar fusnesau tymhorol; yn darparu ffynhonnell o incwm sydd yn fwy cyson na grwpiau eraill o gwsmeriaid, ac unwaith y maent wedi cadw lle, maent yn sicr o ddod yno, er gwaetha'r tywydd. Mae teithio coets hefyd yn well na phob math arall o gludiant o ran ei effaith ar yr amgylchedd.



# Pwy yw'r prif chwaraewyr?

## Mae yna wahanol fathau o gynllunwyr teithiau ond dyma'r prif rai:

ABATY TYNDYRN



## Gweithredwyr Teithiau Coetsys

Mae yna lawer o'r rhain ar draws y DU, gyda nifer o rai tramor hefyd. Maent hefyd fel arfer yn datblygu eu teithiau eu hunain ac yn defnyddio eu cerbydau eu hunain [er bod rhai yn defnyddio coetsys cwmnïau eraill]. Efallai eu bod yn trefnu teithiau [sydd yn medru bod yn hollgynhwysol] sydd yn cynnwys llety dros nos a theithiau i weld a phrofi nifer o atyniadau, teithiau a phrofiadau golygfaol. Maent hefyd yn medru cynnal rhaglenni gwibdaith undydd nad ydynt yn cynnwys llety – er bod rhai gweithredwyr yn defnyddio gwestai er mwyn aros am brydau bwyd, cinio a swper heb ddefnyddio'r llety dros nos. Nid oes cynifer o weithredwyr teithiau coetsys ag y bu yn y gorffennol ar draws y DU. Ac mae nifer o gwmnïau coetsys sydd yn hurio coetsys yn unig ac nid ydynt yn cynnig eu rhaglenni teithiau eu hunain. Efallai y bydd pobl eraill yn eu hurio er mwyn cynnal taith deilwredig a chludo disgyblion i'r ysgol.
*Dyma rai esiamplau o gwmnïau teithiau coetsys:*

- **Mainline Coaches** – De Cymru
- **Edwards Coaches** – De Cymru
- **Barnes Coaches** – Wiltshire
- **Richmond's Coaches** – Swydd Caergrawnt
- **Luckett's Coaches** – Hampshire
- **Durham City Coaches**
- **Skinners Coaches** – Surrey

## Gweithredwyr Teithiau

Nid ydynt fel arfer yn meddu ar eu coetsys eu hunain ond yn gweithio gyda darparwyr eraill. Eto, maent yn cynnig cymysgedd o deithiau a gwyliau i atyniadau a gwestai yn y DU ynghyd â lleoliadau tramor. Byddant yn gwerthu teithiau i aelodau o'r cyhoedd a'r Gweithredwyr Teithiau Grŵp a chynllunwyr teithiau eraill fel cwmnïau coetsys.
*Mae enghreifftiau yn cynnwys:*

- **Saga Holidays**
- **Warner Holidays**
- **Daish's Holidays**
- **Success Tours**
- **Crusader Holidays** – Aylesbury
- **Airedale Travel**
- **Shearings Coach Holidays** – y mwyaf

## Gweithredwyr Teithiau Grŵp

Mae'r Gweithredwyr Teithiau Grŵp yn parhau i gynyddu mewn nifer ac yn ehangu ar draws y wlad. Mae cwmni arferol yn gwmni sydd yn grŵp o ffrindiau, cydweithwyr, cymdeithion neu gyd-aelodau o'r grŵp – ac maent yn trefnu teithiau undydd [gan ddefnyddio llety] ar gyfer eu grŵp penodol. *Mae Gweithredwyr Teithiau Grŵp yn dod o nifer sylweddol o fudiadau gwahanol ac mae'r rhain yn medru cynnwys er enghraifft:*

- **The University of the Third Age [U3A]**
- **Clybiau Probus [Pobl Broffesiynol a Busnes sydd wedi Ymddeol]**
- **Aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
- **Clybiau Ymddeol**
- **clybiau cyflogaeth – sydd ar gael i weithwyr cwmni neu fudiad**

Mae gofyn i'r Gweithredwyr Teithiau Grŵp, fel y gweithredwyr coetsys a theithiau, i drefnu yswiriant a bod yn ymwybodol o'r cyfreithiau a chyfrifoldebau ynghlwm wrth ofalu am grwpiau mawr o bobl ynghyd â delio gyda'u harian.



*GWINLLAN WHITE CASTLE*

## Cwmniau Teithiau sy'n dod â Thramorwyr i'r Deyrnas Unedig

Fel yr awgrymir gan yr enw, dyma gwmnïau sydd yn ffocysu ar ddod ag ymwelwyr tramor i'r DU er mwyn cael amryw o brofiadau gwahanol. Efallai eu bod wedi eu lleoli dramor neu efallai eu bod yn gweithio o swyddfeydd yn y DU. Mae'r farchnad hon wedi tyfu'n sylweddol dros y ddeng mlynedd diwethaf ac yn cynrychioli elfen hanfodol o'r economi twristiaeth - er bod hi'n anodd ceisio clustnodi'r grŵp yma o gwsmeriaid fel un set benodol. Maent yn amrywio mewn ymateb i gyflyrau economaidd ac yn amrywio gan ddibynnu ar y cyfraddau cyfnewid. Mae'r nifer o ymwelwyr o Asia wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymwelwyr Tsieinïaidd. Mae'r cwmnïau yma, fel gweithredwyr teithiau, yn cynnig teithiau hollgynhwysol, pecynnau teilwredig a phethau penodol eraill. Fel rhai gweithredwyr teithiau, maent yn galw eu hunain yn gwmni rheoli lleoliadau. *Mae enghreifftiau yn cynnwys:*

- **Miramar Travel** – Llundain
- **Scancoming** – Llundain
- **Abbey Ireland and UK**
- **AC Group**
- **Active England**
- **Anderson Travel** – Llundain
- **ASA London – Angela Shanley Associates**
- **Anglo Chinese Executive** – Windsor
- **Around and About Bath**
- **Axis and Globe**
- **Back Roads Touring**

## Cyfanwerthwyr Teithiau

Dyma gwmnïau sydd yn darparu gwasanaethau i gwmnïau coetsys ac i Weithredwyr Teithiau Grŵp – yn cynnig syniadau am deithiau sydd wedi eu hymchwilio yn drwyadl. Fel arfer, byddant yn cynnig ystod o bethau gwahanol – gwyliau, seibiannau byr, teithiau undydd ayyb – sydd yn cynnwys lleoliadau, gwestai ac atyniadau yn y DU. Efallai eu bod yn arbenigo yn y farchnad ar gyfer pobl sy'n hŷn na 50 mlwydd oed. Ond maent hefyd yn ymgysylltu â'r farchnad sydd yn dod â thramorwyr i'r Deyrnas Unedig. *Mae'r rhain yn cynnwys er enghraifft:*

- **Great Days Travel Group** – Altringham
- **Norman Allen Group Travel** – Henffordd
- **Dunwood Travel** – Swydd Stafford
- **Albatross Travel** – Caint

# A yw'ch busnes chi wedi paratoi ar gyfer grwpiau?

Cynyddwch botensial eich gweithrediad i'r eithaf drwy ddatblygu cynnig grŵp sy'n adlewyrchu eich Pwyntiau Gwerthu Unigryw ac yn apelio at y fasnach deithio.

ROMAN CAERLEON



Os tybiwn er mwyn dadl fod y rhan fwyaf (nid y cyfan) o'r grwpiau'n tueddu i fod yn aeddfed gyda demograffig dros 50, dyma rai cwestiynau.

GWLYPDIROEDD CASNEWYDD



## A allai'r hyn yr ydych yn cynnig i'r grŵp gynnwys y canlynol?

P'un ai eich bod yn cynnig gwesty, atyniad, lle i aros am fwyd neu gyfleuster lleoliad mawr, mae cwsmeriaid a chynllunwyr teithiau grŵp fel arfer angen:

- Lolfa – rhywle i eistedd ac ymlacio
- Lle cyfagos i barcio a rhywle i ollwng a chasglu'r teithwyr
- Cyfleusterau toiled hygyrch ar gyfer efallai hyd at 50 o bobl
- Lifft – os oes mwy nag un llawr
- Rhywun o fewn eich busnes sydd yn deall grwpiau a'u hanghenion – y person cyswllt ar gyfer y daith (mae llawer o ymholiadau yn cael eu colli yn y ddesg groeso yn sgil staff amhrofiadol neu sydd heb eu briffio)
- Gwasanaeth yn cyfarch pobl wrth iddynt gyrraedd
- Os ceir bwyd, bydd angen bwydlen a bod modd dewis prydau penodol ymlaen llaw os oes angen
- A yw'r teithwyr grŵp yn teimlo eu bod yn derbyn yr un croeso â'r defnyddwyr eraill sydd yn ymweld â'ch sefydliad?
- Rhywle i'r gyrrwr a'r tywysydd i orffwys a bwyta
- Cyfraddau penodol ar gyfer grwpiau er mwyn iddynt gael mynediad at atyniadau ac aros mewn gwestai
- Os na cheir lifft, a oes yna ystafelloedd ar y llawr gwaelod?
- A ydych yn gofyn am flaendal wrth dderbyn grwpiau? [rhag ofn eu bod yn canslo]
- Deunyddiau hyrwyddo penodol sydd yn adlewyrchu eich Pwyntiau Gwerthu Unigryw ac yn helpu i werthu'r hyn yr ydych yn cynnig
- Cynnig i'r grŵp sydd yn gyson gyda'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn lleol ac yn cyfeirio pobl at fusnesau ac atyniadau eraill yn yr ardal – rhywbeth i'r grwpiau i wneud.

# Beth i'w wneud i gael grwpiau

## Gan gymryd yn ganiataol bod yr hyn yr ydych yn cynnig yn gydlynus ac yn realistig, mae yna ffyrdd i chi sicrhau eich bod yn hawlio sylw ac yn sicrhau archebion cynaliadwy gan grwpiau:

Lansio a datgelu eich busnes i'r fasnach deithio. Mae'n hanfodol eich bod ar radar y rhai hynny sydd yn prynu teithiau– trefnwyr teithiau grŵp, gweithredwyr coetsys a theithiau ayyb. Mae nifer o ffyrdd i wneud hyn a dyma rhai ohonynt:

### Defnyddio delweddau a negeseuon grwpiau

Sicrhewch fod eich deunydd cyfathrebu a marchnata yn cynnwys delweddau o gwsmeriaid sy'n rhan o grŵp arferol a'r coetsys, a bod unrhyw negeseuon hyrwyddo yn cael eu datblygu yn benodol ar gyfer grwpiau ar draws yr holl sianeli marchnata perthnasol. Er enghraifft, dylech gael gwefan [dylid cael botwm hawdd i archebu ar ran grŵp a dylid medru defnyddio'r safle yn hawdd]; taflenni wedi eu hargraffu; e-newyddlen, llythyron; cyfryngau cymdeithasol; post deisyfu; byrddau arddangos ac yn y blaen.

*CASTELL RHAGLAN*



## Datblygu cronfeydd data penodol

Ceisiwch adeiladu cronfeydd data penodol o'r holl gynllunwyr teithiau amrywiol, gyda manylion yr unigolion a'r cwmnïau/mudiadau – a sicrhewch fod y cronfeydd data yma yn cydymffurfio gyda GDPR. Mae'r data yn rhan hanfodol o'r hyn yr ydych yn cynnig i'r grŵp, a heb hyn, bydd yn anodd iawn i chi ddenu grwpiau.

## Gwahoddwch nifer dethol o gynllunwyr teithiau [a phartneriaid] er mwyn rhoi cynnig ar yr hyn yr ydych yn medru cynnig i'r grŵp

Mae hyn yn medru cynnwys cymysgedd o'r cynllunwyr teithiau yr ydym wedi eu crybwyll - trefnwyr teithiau grŵp, gweithredwyr teithiau - ac wrth gwrs, dylent fod yn briodol i'r math o fusnes yr ydych. A oes gennych fwy o ddiddordeb yng nghynllunwyr teithiau o'r DU neu'r rhai tramor? Gallech gynnig ymweliad iddynt am ddim [os ydych yn westy] ond mae'n bwysig eich bod yn cynnwys naill ai blaendal nad oes modd ei ad-dalu a/neu ffi canslo os nad ydynt yn dod atoch. Mae hyn yn rhywbeth prin ond mae teithiau 'FAMS' (familiarisation trips) yn medru denu'r math anghywir o bobl. (Yn anffodus, mae lleiafrif bach o unigolion - fel arfer yn weithredwyr teithiau grwpiau - sydd yn cael eu denu gan y cynnig o aros am ddim, tocynnau theatr am ddim ayyb. Mae hon yn broblem ar draws y wlad ar gyfer y diwydiant ac yn effeithio ar y DU gyfan.) Os ydych yn penderfynu trefnu gweithgaredd o'r fath - efallai mewn cydweithrediad gyda'ch Cyngor lleol - mae'n well dangos nid yn unig eich cynnyrch eich hun ond hefyd yr amrywiaeth o safleoedd a'r llefydd cyfagos eraill i ymweld â hwy - os ydynt yn ychwanegu at yr hyn yr ydych yn cynnig ac nid mewn cystadleuaeth â chi.

## Trefnwch amserlen syml ond deniadol i'r cynllunydd teithiau

Eich busnes chi fydd yr elfen allweddol ond dylech gynnwys elfennau eraill sydd yn ychwanegu rhywbeth at yr hyn sydd gennych ac yn ei wneud yn fwy deniadol i'r prynwyr teithiau. Nid yw gweithredwyr teithiau grŵp a gweithredwyr teithiau fel arfer yn trefnu taith yn seiliedig ar un gwesty neu un atyniad ond mae'n rhaid cynnig nifer o bethau cysylltiedig. Efallai bod hyn yn bodoli eisoes neu efallai y bydd eich busnes yn cyfoethogi amserlen sydd yn cael ei chynnig gan fudiad arall? Dyma'r hyn y byddech yn datgelu i'r cynllunydd teithiau os ydych yn trefnu 'FAM' neu ddigwyddiad lansio. Er bod grwpiau yn medru bod yn amrywiol iawn o ran eu hanghenion, mae'n bwysig nodi nad oes ganddynt ddiddordeb fel arfer mewn safleoedd sydd yn cael eu targedu i ddiwallu anghenion plant bach, ymarferion adeiladu tîm, golffwyr, priodasau, cwsmeriaid corfforaethol ayyb. Nid ydym yn dweud na fyddai cerdded, gweithgareddau awyr agored, seiclo ayyb mewn ardaloedd gwledig yn Sir Fynwy a Chasnewydd o ddiddordeb i grwpiau mwy penodol - fel grwpiau cerdded a gweithredwyr teithiau grŵp. Mae'n beth da i roi cynnig i gwsmeriaid i brofi gweithgareddau sydd ychydig yn wahanol i'r teithiau coetsys arferol. Mae busnesau Dyffryn Wysg wedi rhoi cynnig ar hyn yn y gorffennol pan oedd rhai wedi rhoi cynnig ar abseilio. Yn Southport, roedd unigolion wedi mwynhau mynd ar feiciau ar hyd lan y môr. Pawb at y peth a bo!

> Mae rhaglenni teithio grŵp cyfredol ar gael i'w gweld yma.

## Lluniwch Gynllun Gweithredu Grŵp

Nodwch y camau gweithredu y byddwch yn eu cynnal gyda phartneriaid perthnasol dros y 36 mis nesaf. Dylech gynnwys eich cyllideb arfaethedig a chostio'r agweddau gwahanol o'r hyn yr ydych yn teimlo'n ddigon cyfforddus a hyderus i'w gynnig. *Gallai hyn gynnwys:*

- lansio grŵp neu arddangosfa ar gyfer cynllunwyr teithiau;
- datblygu amserlenni taith;
- mynd i arddangosfeydd twristiaeth penodol ar gyfer teithiau grŵp a choetsys;
- ymgyrch farchnata gyda'r costau yn y cyfryngau teithio;
- ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus;
- presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn targedu'r fasnach teithio;
- aelodaeth o unrhyw gymdeithas fasnachol sydd yn medru eich helpu sicrhau busnes grŵp safon uchel – fel y Travel World Association [TWA] info@travelworldassociation.com Coach Tourism Association [CTA] admin@coachtourismassociation.co.uk neu UKInbound events@ukinbound.org; www.coachbuddy.org.uk

# Ffyrdd eraill i sicrhau archebion grŵp

## Cyfarfodydd Cyfrif Allweddol

Gan ddibynnu ar faint o amser a phersonél sydd gennych, ewch i ymweld gyda chwmnïau teithio yn eu swyddfeydd drwy drefnu cyfarfodydd lle y mae modd i chi esbonio pa mor dda yw'r hyn sydd gennych i'w gynnig – a chyfeiriwch o bosib at bethau yr ydych yn medru eu defnyddio er mwyn eu cymell i'ch cynnwys yn eu teithiau, gwyliau, rhaglenni teithiau undydd ayyb. Mae'r rhain yn medru bod fel dinas neu ardal er mwyn manteisio ar yr amser sydd gennych ac yn eich caniatáu i drefnu hyd at pedwar cyfarfod mewn un diwrnod.

## Trefnu Ymweliadau i'ch Busnes

Fel y crybwyllwyd o ran lansio eich cynnig ar gyfer y grŵp, y dull hwn, ynghyd â chyfarfodydd cyfrif, yw'r ffodd orau a mwyaf effeithiol o berswadio prynwyr teithiau i gynnwys eich safle yn eu teithiau. *Byddai hyn fel arfer yn cynnwys:*

- llety am un neu ddwy noson;
- cynnal sesiynau yn y misoedd sydd yn arwain at y cyfnodau prysuraf neu'n dilyn y cyfnodau prysuraf
- yn ffocysu am amserlen sydd wedi ei drefnu'n ofalus ac yn ymdrin â chynifer o agweddau o'r cynnig ag sydd yn bosib;
- yn cynnwys prydau bwyd a lluniaeth;
- yn defnyddio Tywysydd Twristaidd Bathodyn Glas;
- trefnu ymweliadau i'r llefydd ac atyniadau yr ydych am eu cynnwys;
- yn cynnig cyfle i'r cyfryngau masnach deithio i dynnu lluniau (a fyddai'n cael eu gwahodd i fynychu);
- yn cynnwys sesiwn lle y mae modd cwrdd â'r prynwyr grwpiau a'u bod yn medru siarad yn uniongyrchol gyda'r busnesau.

---

**Cysylltwch ag adran dwristiaeth eich awdurdod lleol er mwyn gofyn a ydynt yn trefnu Arddangos Prynwyr Grwpiau rhanbarthol a thaith FAM fel bod modd i'ch busnes i gymryd rhan.**

Pa bynnag weithgaredd a drefnwch, mae'n bwysig eich bod yn targedu prynwyr teithiau go iawn o ran gweithredwyr teithiau grŵp, a'u bod wedi darparu cofnod o'u hanes ar ffurflen gofrestru er mwyn mynychu'r digwyddiad. Eto, mae ffi canslo yn hanfodol. Mae hyn yn helpu sicrhau eich bod yn osgoi pobl sydd yn gwastraffu amser a'ch bod yn cynnal digwyddiad llwyddiannus. Mae hefyd o bosib yn fwy defnyddiol a'n haws o ran adnoddau [yn enwedig gwestai] i fusnesau i drefnu teithiau FAM i gwmnïau unigol sydd yn cynnwys elfennau sydd wedi eu trefnu yn barod a bod modd eu hail-adrodd, er enghraifft wrth i chi wahodd un cwmni bob mis. Mae'r un meini prawf o ran cymhwysedd yn berthnasol i'r sawl sydd yn mynychu ond ni fyddai hyn yn addas i weithredwyr teithiau grŵp – dim ond i gwmnïau unigol [gan y byddai cymysgedd o weithredwyr teithiau grŵp a gweithredwyr eraill fel arfer yn mynychu digwyddiad arddangos mwy].

Rhowch gymhelliad i'ch cynnig ar gyfer cwmnïau teithiau a choestys gan gynnwys cwmnïau sydd yn dod ag ymwelwyr tramor. Mae yna dri math o gymhelliad sydd yn medru, os ydynt yn cael eu paratoi yn gywir, eich helpu chi sicrhau bod grwpiau yn gwario mwy o arian wrth i'r coetsys a'r grwpiau ymweld â chi:

1

## Rheolwr Teithiau

Pan fyddwch yn siarad gyda'r rheolwr teithiau mewn cwmni penodol [efallai yn ystod cyfarfod cyfrif allweddol, FAM neu mewn sioe fasnach], dylech geisio eu hannog i roi cynnig drwy roi cynnig am ddim neu ostyngiad iddynt. Gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng sicrhau bod eich cynnig yn cael ei gynnwys yn eu deunydd marchnata digidol ac argraffedig ai peidio.

2

## Gyrrwr y Bws

Os yw'ch grŵp yn cyrraedd ar goets, yna mae'r gyrrwr (ac unrhyw dywysydd arall) yn medru bod yn werthfawr iawn i chi. Tra nad yw'r rhan fwyaf o yrwyr bysiau yn trefnu llety mewn gwesty (oni bai eu bod yn yrwyr sy'n berchnogion], mae ganddynt y potensial i fod yn lysgenhadon ar gyfer atyniadau, safleoedd manwerthu a ble i aros am bryd o fwyd. Os ydych yn eu cymell, efallai y bydd y rhyddid ganddynt i ddewis eich safle chi ac nid safleoedd eraill.

Mae'r sector manwerthu (safleoedd siopa, canolfan gerddi fawr, gwasanaethau ar ochr y draffordd ayyb) wedi dod yn arbenigwyr o ran manteisio ar y disgresiwn sydd gan yrwyr. Maent yn gwerthfawrogi bod grwpiau mawr yn medru arwain at fusnes sylweddol, ac felly, maent yn cynnig nifer o bethau er mwyn medru sicrhau'r busnes hwn. Yn gyntaf, mae'r gyrwyr a'r tywyswyr fel arfer yn derbyn prydau bwyd neu luniaeth am ddim yn y fath lefydd. Ond mae hyn yn cael ei ddisgwyl mwyach ac nid yw'n cael ei ystyried yn gymhelliad. Mae'r cymhelliad mwyaf yn ffocysu ar y comisiwn manwerthu sydd yn cael ei dalu [weithiau yn flynyddol] i yrrwr cofrestredig, sydd yn seiliedig ar y nifer o deithwyr y mae ef/hi wedi cludo i'r safle dros gyfnod o flwyddyn. Rhaid ystyried y fath gynnig yn ofalus a dylid ei osgoi os nad os modd ei reoli'n gywir. Nid yw bwyd a diod byth yn cael eu cynnwys os caiff comisiwn ei dalu.

Mae pob un sefydliad yn wahanol, ac mae'r systemau cyfrifeg yn eu lle yn y mannau hynny lle mae'n gweithio yn effeithiol. Mae'r math yma o gymhelliad fel arfer yn cael ei ddarparu gan fusnesau yn y sector preifat ac yn llai cyffredin ar draws y sector cyhoeddus. Ond mae'n werth ystyried gan fod y manteision yn sylweddol. Mae rhai safleoedd hefyd yn annog ymweliadau gan grwpiau drwy ofyn i yrwyr i gyfeirio at gynnyrch penodol a bydd y gyrrwr wedyn yn derbyn cyfran benodol ar ôl gadael yr atyniad. Mae'r eitemau yma yn medru amrywio ac yn rhywbeth sydd yn ddymunol a bod modd ei ail-adrodd. Mae'r Siopau Melin, Gororau'r Alban, wedi denu gyrwyr i hyrwyddo teisen frau a boteli o fedd. Mae'n bosib cael amryw o gynigion dros mwy nag un safle a gallai hyn fod yn sail i unrhyw Glwb Cymhelliant Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg yn y dyfodol neu gerdyn. Ond dylid ystyried hyn fel rhywbeth 'posib ar gyfer y dyfodol'. Efallai ei bod hi'n werth ystyried y syniad o greu ystafell benodol fel 'Ystafell y Gyrrwr'.




*CANOLFAN CROESO CAS-GWENT*

3

## Teithwyr ar y Coetsys

Dyma'r categori olaf ond nid y mwyaf dibwys o bell. Os yw busnes yn cynnig gwasanaeth cyfarch, yna mae hyn yn gyfle i roi talebau gostyngiad i deithwyr er mwyn eu hannog i wario arian ar gynnyrch penodol pan fydd y goets yn aros mewn safleoedd manwerthu, atyniadau a chyfleusterau pellach. Dylid hefyd gynnig bwyd a lluniaeth addas fel bod teithwyr yn medru bwyta ar y safle [os yn bosib] a bod pobl yn deall yr amserlenni cyfyng sydd gan goetsis, a grwpiau tramor fel arfer. Mae talebau gostyngiad eisoes ar gael i rai trefi e.e. Cas-gwent, ac felly, cysylltwch ag adran dwristiaeth eich awdurdod lleol er mwyn canfod cyfleoedd perthnasol yn eich ardal.

# Mynychu Sioeau a Gweithdai Masnach

Mae yna nifer o arddangosfeydd a gweithdai ar draws y wlad – rhai wedi eu trefnu gan gylchgronau, eraill gan gymdeithasau ac arbenigwyr teithio. Mae'n bwysig ymgysylltu gyda'r prynwyr teithiau amrywiol ac mae'r cyfleoedd yma yn ddefnyddiol. Mae rhai yn canolbwyntio ar weithredwyr coetsys a theithiau [BTTS - British Tourism and Travel Show yn yr NEC yn Birmingham ym Mawrth **www.tourismshow.co.uk**]; GTOS [The Group Leisure and Travel Show yn Milton Keynes **www.grouptravelshow.com**] a thwristiaid rhyngwladol [World Travel Market in London **www.wtm.com**] a gweithredwyr coetsys a theithiau. **www.stevereedtourism.co.uk**; gyda Gweithdai Fforwm i brynwyr yn y Gogledd a'r De bob blwyddyn. Mae yna ddigwyddiadau llai a mwy rhanbarthol ar draws y DU ond maent yn amrywio o ran medru sicrhau bod y prynwyr grŵp yn rhai gwirioneddol. Mae rhai ohonynt yn dda iawn ac yn gofyn am hanes o'r teithiau y maent wedi trefnu yn y gorffennol, ond mae eraill weithiau yn ffocysu mwy ar y niferoedd yn hytrach nag ansawdd. Dylai busnesau ddanfon staff gwybodus sydd yn meddu ar ddealltwriaeth o'u grŵp i'r sioeau yma a dylech gysylltu gyda hwy ar ôl y digwyddiad. Mae mynd gyda'ch mudiad twristiaeth lleol / rhanbarthol / cenedlaethol a bod yn bartner ar stondin y cyrchfan perthnasol yn cadw'r costau yn isel. Mae mynychu'r sioeau yn ffordd wych i chi wella eich cronfeydd data o gynllunwyr teithiau.

*CANOLFAN YMWELWYR LLANDEGFEDD*



## Hysbysebu, Hysbysebion a Sylw yn y Wasg

Elfen bwysig o farchnata'ch grŵp yw sicrhau sylw yn y wasg sydd yn ymdrin gyda'r fasnach deithio – er nad yr elfen bwysicaf yw hyn (wrth gwrs, byddent hwy yn anghytuno gyda hyn!). Nid oes yna lawer o gyhoeddiadau ar gyfer y fasnach deithio sydd yn cynnwys platfform print a digidol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer wedi cau gan gynnwys cyhoeddiadau amlwg iawn fel Coach Monthly a Travel GBI. Mae rhai sydd yn weddill dal yn cynnig gwerth am arian, yn apelio at brynwyr teithiau gwirioneddol ac yn cynnig gwasanaeth rhesymol. Os ydych yn hysbysebu yn y cylchgronau yma, dylech hefyd sicrhau sylw 'am ddim' [eich stori, atyniad a lluniau] - yn ddelfrydol ar ochr dde'r dudalen neu rhywle arall os oes angen. Mae'r cylchgronau am sicrhau eich cwsmeriaeth, ac unwaith eich bod yn prynu un hysbyseb, byddant yn sicr o gysylltu gyda chi eto ac eto. *Felly, sicrhewch eich bod yn gofyn y cwestiynau perthnasol:*

- Faint o 'brynwyr teithiau' sydd yn prynu'r cylchgrawn a pha mor aml? Mae rhai yn cael eu cyhoeddi bob yn ail fis. Mae rhai cyhoeddiadau yn honni eu bod yn dosbarthu'r cyhoeddiad i fwy o weithredwyr teithiau grŵp a gweithredwyr teithiau nag sydd yn bodoli!
- A ydych yn medru sicrhau stori gyda phob hysbyseb yr ydych yn trefnu gyda'r cyhoeddiad?
- A fydd eich hysbyseb yn cael ei osod ar y platfform digidol?
- A ydynt yn medru rhoi eich stori ar y cyfryngau cymdeithasol?
- Pa wasanaethau eraill y maent yn cynnig i'ch helpu i ddenu grwpiau newydd?
- A yw'r holl ddarllenwyr yn gynllunwyr teithiau sydd dal yn gweithio neu wedi ymddeol?

*Enghreifftiau o gylchgronau:*

- Cylchgrawn Group Travel World– Peterborough. Gweithredwyr teithiau grŵp a gweithredwyr coetsys.
- Cylchgrawn Group Leisure– Milton Keynes. *Gweithredwyr Teithiau Grŵp*
- Cylchgrawn Coach Tours UK– Peterborough. Gweithredwyr coetsys
- Travel Weekly – Llundain. *Asiantaethau teithio,* gweithredwyr coetsys
- Cylchgrawn Coach and Bus Week. *Gweithredwyr coetsys*
- Cylchgrawn GTO – Llundain. *Gweithredwyr Teithiau Grŵp*
- Cylchgrawn Route One. *Gweithredwyr coetsys*

Mae rhai o'r cyhoeddiadau yma yn fedrus wrth gyfathrebu neges grŵp i'r prynwr. Mae un neu ddau yn ffocysu mwy ar elfen dechnegol y diwydiant yn hytrach na'n ceisio apelio at brynwyr teithiau gwirioneddol – y ffordd orau yw gofyn iddynt ddanfon enghraifft o'r cyhoeddiad cyn i chi drefnu hysbyseb.

### Y DAITH GWY DARLUNIADWY




*Dyluniwyd gan Dispirito Design*

# Gweithio gyda'ch Cyrchfan Bartneriaeth Leol

Os yw teithiau grŵp yn farchnad allweddol ar gyfer eich cyrchfan neu'ch atyniad, mae hefyd yn werth ystyried ceisio sicrhau statws Coach Friendly y *Confederation of Passenger Transport*, sydd yn dangos i'r sawl sydd yn rheoli coetsys eich bod am groesawu coetsys a bod y cyfleusterau priodol ar gael. Mae sicrhau'r statws *Coach Friendly* ar gyfer eich partneriaeth yn cynnwys gweithio gydag aelodau o'ch Cyrchfan Partneriaeth lleol. (Cysylltwch ag adran dwristiaeth eich awdurdod lleol am gyngor).

Lluniwch eich cynlluniau grŵp gyda grŵp sydd wedi ei dethol yn ofalus o unigolion tebyg sydd yn rhannu eich nod i sicrhau'r math cywir o fusnes ar gyfer yr ardal a'u busnesau. Mae hyn yn medru cynnwys cyfarfodydd anffurfiol sydd yn cwrdd yn lled anaml, gyda rhywun o Dwristiaeth Sir Fynwy neu Gasnewydd, neu o'r Gyrchfan Bartneriaeth leol, fel rhywun sydd yn cyfryngu neu'n cydlynu. Mae'r math yma o grŵp yn medru dod â'r sgiliau a'r adnoddau ynghyd er mwyn llunio Grwpiau Cynllun Gweithredu realistig sydd yn cydlynu gweithgareddau amrywiol, yn datblygu'r gyrchfan er budd grwpiau ac yn monitro'r grwpiau sydd yn galw yno er mwyn ceisio penderfynu a yw'r buddsoddiad wedi bod o werth.

*CASTELL CAS-GWENT*



# Dolenni Defnyddiol

## Twristiaeth Sir Fynwy

tourism@monmouthshire.gov.uk

## Twristiaeth Casnewydd

tourism@newport.gov.uk

## Dod â Grwpiau i Ddyffryn Gwy a Dyffryn Wysg – amserlenni, parcio ar gyfer coetsys a chanllawiau teithiau grŵp:

## Confederation of Passenger Transport’s Coach Friendly Status requirements

Wedi’i ariannu gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20, sy’n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop am Ddatblygiad Gwledig, a Llywodraeth Cymru.

Ymchwil a chopi gan Steve Reed Tourism Cyf. Dyluniad gan Height Studio Images wedi’i ail-greu trwy garedigrwydd Steve Reed Tourism Cyf., Ymwelwch â Sir Fynwy, Twristiaeth Casnewydd, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dŵ r Cymru, Gwinllan White Castle, Chepstow Walkers are Welcome. Cyfieithiad gan Gyngor Sir Fynwy.




www.visitmonmouthshire.com/groupvisits
www.cityofnewport.wales/en/Visit/Group-travel/Group-travel.aspx